

Teitl y Swydd	Rheolwr Tendro a Chaffael
Math o Swydd	Llawn Amser - Parhaol
Cyflog	£35,000+ yn ddibynnol ar brofiad

Trosolwg o'r Rôl

Mae'r swydd Rheolwr Tendro a Chaffael hon yn gyfle newydd, cyffrous i ymuno ag Orchard mewn rôl fydd yn datblygu busnes a chanolbwyntio ar y farchnad. Ar gyfer y rôl hon mae angen meddwl strategol a set sgiliau sy'n canolbwyntio ar fanylion. Byddant yn gyfrifol am wneud penderfyniadau tactegol i gyflawni strategaeth ac amcanion y cwmni.

Mae Pencadlys Orchard yng nghanol Caerdydd, fodd bynnag rydym yn cynnig cyfle i weithio o bell fel rhan o'n polisi gweithio hyblyg.

I wneud cais, anfonwch lythyr eglurhaol a CV at jointheteam@thinkorchard.com. Rydym yn derbyn nifer fawr o geisiadau ac yn gwneud ein gorau i gysylltu â phawb. Fodd bynnag os na fyddwch wedi clywed oddi wrthym o fewn mis i'ch cais, yna, yn anffodus, ni fyddwch wedi bod yn llwyddiannus.

Cyfrifoldebau cyffredinol a thargedau

Bydd y Rheolwr Tendro a Chaffael yn gyfrifol am weithio'n agos gyda'r uwch dîm rheoli i nodi a hyrwyddo ymatebion integredig i dendrau a deilliannau llwyddiannus ac arbed costau ar bryniant grŵp tra'n cynnal ansawdd y gadwyn gyflenwi. Bydd hyn yn cynnwys:

1. Tendro

- Adnabod cyfleoedd perthnasol
- Gwerthuso cyfleoedd gyda rheolwyr allweddol
- Arwain a chydlynu cyfarfodydd tîm tendro
- Arwain cyfarfodydd gweithgorau tendro
- Ysgrifennu dogfennau tendro (gyda rheolwyr allweddol)
- Cyflwyno dendrau yn gywir ac ar amser
- Ysgrifennu a choladu astudiaethau achos ac asedau tendro eraill
- Ysgrifennu a rheoli dogfennau polisi a phrosesau fel bo'r angen
- Adrodd ar ddata KPI fel bo'r gofyn
- Cyflwyno adroddiadau yn ôl y gofyn gan Fframweithiau
- Adrodd am adborth (da a drwg) i weithgorau tendro

2. Caffael

- Asesu meysydd ar gyfer arbedion ar gostau trydydd parti
- Rhesymoli a chymwysterau cyflenwyr
- Cynnal tendrau caeedig cystadleuol ar gyfer gwasanaethau
- Trafod gyda chyflenwyr
- Sicrhau bod gan gontractwyr llawrydd a chontractwyr eraill gontractau angenrheidiol (yn cwmpasu Eiddo Deallusol a Chytundeb Peidio â Datgelu (NDA))
- Adrodd ar arbedion a gynlluniwyd yn erbyn arbedion gwirioneddol a MI eraill

Cyfrifoldeb penodol

Pobl

- Sicrhau ymagwedd un tîm i gyflawni targedau ac amcanion
- Cydweithio â chydweithwyr i fynd i'r afael â materion yn ymwneud ag adnoddau neu dagfeydd eraill sy'n peryglu cyflwyno tendrau
- Gweithio gydag Adnoddau Dynol i sicrhau bod gan weithwyr llawrydd a chontractwyr y cytundebau a'r amodau cywir.
- Sicrhau bod gwerthoedd craidd Orchard (Blaengar Parchus Dychmygus Ystyriol Rhagorol) yn cael eu dilyn gennych chi a'r tîm bob amser

Tendro

- Cadw cofnodion ac adrodd yn gywir ar Excel, Zoho a Synergist
- Cyfradd ennill o 30% o fframweithiau a 15% nad yw'n fframwaith o leiaf
- Pob ymgyrch a phrosiect mawr i gael astudiaeth achos wedi'i hysgrifennu'n llawn gydag Effeithiolrwydd wedi'i hamlygu
- Defnyddio tueddiadau cyfredol a rhai sy'n dod i'r amlwg i baratoi ar gyfer y dyfodol a chreu cynlluniau gweithredu a thwf
- Sicrhau prisio cywir
- Sicrhau bod polisiau a dogfennau Holiadur Cyn Cymhwysio yn gyfredol ac yn addas i'r diben
- Sicrhau bod achrediad FSQS (System Cymwysterau Gwasanaethau Ariannol) yn cael ei gadw
- Fframwaith presennol a chadw contractau
- Ehangu ar Fframwaith y CPS

Caffael

- Adolygiad ac adroddiad 6 misol o gostau trydydd parti
- Arbedion o 5% o gyllideb trydydd parti drwy gyfuno a negodwyd
- Archwiliad blynyddol o gyflenwyr dros £50,000 - gwirio eu bod yn addas i'r diben

Profiad angenrheidiol

Hanfodol

- Hanes profedig o reoli cyflwyniadau tendr ymgyrchoedd aml-asiantaeth, aml-blatfform llwyddiannus
- Profiad o weithio gyda phartneriaid consortiwm cyflenwyr
- Profiad o weithio gyda llwyfannau integredig yn y Cwmwl
- Hanes profedig o reoli cyllidebau mawr
- Profiad helaeth o uwch-reolaeth caffael
- Y gallu i drafod telerau ffafriol gyda pherchnogion cyfryngau, cyflenwyr, gweithwyr llawrydd a phartneriaid asiantaeth
- Yn gyfforddus i wneud cyflwyniadau i gleientiaid os oes angen

Dymunol

- Gwybodaeth o'r diwydiant ac adnabod cysylltiadau, casglu a rheoli'r adnoddau angenrheidiol a'r sgiliau i gyflawni ar y weledigaeth greadigol uchod
- Gwybodaeth ymarferol dda am systemau a llwyfannau caffael Cymru a'r DU gyfan
- Cysylltiadau gwyb ag unigolion allweddol yng Nghymru
- Rhugl yn y Gymraeg

Pecyn Buddion Orchard

Ein pobl yw'r hyn sy'n ein gwneud yn unigryw Dyma paham ein bod yn cynnig pecyn buddion hael i bawb sy'n aelod o'n tîm. Dyma enghreifftiau o'r buddion sydd ar gael:

- Cyfleoedd gweithio hyblyg ac o bell
- Oriau craidd 10 - 4
- 25 niwrnod o wyliau a diwrnod ychwanegol i ffwrdd dros y Nadolig
- Oriau lles misol
- Cyllideb hyfforddi hael
- Yswiriant meddygol preifat
- Cynllun beicio i'r gwaith
- Pensiwn o 8% (mae hynny'n cyfateb i 4% gennych chi a ni)
- Digwyddiadau a gweithgareddau cymdeithasol (fel diodydd diwedd mis, clwb ffilm a phêl-droed 5 bob ochr)

Rydym yn gyflogwr cyfle cyfartal, sy'n golygu y byddwn yn ystyried pob ymgeisydd sydd â chymwysterau addas waeth beth fo'i hunaniaeth neu fynegiant o ran rhywedd, tarddiad ethnig, cenedligrwydd, crefydd neu gredoau, oedran, cyfeiriadedd rhywiol, statws anableded neu unrhyw nodwedd warchoddedig arall. Rydym yn recriwtio ac yn datblygu ein pobl yn seiliedig ar deilyngdod a'u hangerdd ac rydym wedi ymrwymo i greu amgylchedd cynhwysol ar gyfer pob gweithiwr.

Blaengar. Parchus. Dychmygus. Ystyriol. Rhagorol.